# Cyfrannu at adolygiadau, strategaethau a chynlluniau tai

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chyfrannu at adolygiadau, strategaethau a chynlluniau tai. Gallai hyn gynnwys adolygu'r defnydd o stoc dai bresennol, cynllunio gofynion tai newydd, datblygu strategaethau newydd a phresennol, ac adolygu digartrefedd yn yr ardal.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dod i gytundeb gyda chydweithwyr ar bwrpas a chwmpas adolygiadau, strategaethau a chynlluniau tai
2. nodi gofynion data ansoddol a meintiol perthnasol ar gyfer adolygiadau, strategaethau a chynlluniau tai
3. cynnal ymchwil i gyfrannu at ddatblygu adolygiadau, strategaethau a chynlluniau tai
4. rhoi gwybodaeth gyfoes ac esboniadau perthnasol i gydweithwyr perthnasol i gynorthwyo'r gwaith o gynhyrchu adolygiadau, strategaethau a chynlluniau tai
5. mapio a monitro'r gweithgareddau cyfredol y mae'r sefydliad yn ymgymryd â nhw mewn perthynas â'r adolygiad, y strategaeth neu'r cynllun tai perthnasol
6. asesu gofynion, galw a chyflenwad nawr ac yn y dyfodol ar gyfer stoc tai a/neu ddarparu gwasanaethau
7. cyfrannu at gynllunio ar gyfer gofynion tai y boblogaeth leol nawr ac yn y dyfodol yn unol â thargedau a deddfwriaeth sefydliadol berthnasol
8. nodi ffyrdd o wneud defnydd perthnasol o'r stoc dai bresennol a/neu'r gwasanaethau a ddarperir
9. gweithio gyda rhanddeiliaid, cwsmeriaid a'r gymuned leol ar adolygiadau, strategaethau a chynlluniau tai
10. cynhyrchu data ac adroddiadau yn unol â'ch gofynion sefydliadol
11. cadarnhau bod adolygiadau, strategaethau a chynlluniau tai yn gynaliadwy, yn hygyrch ac yn cyd-fynd â gofynion a deddfwriaeth sefydliadol berthnasol
12. nodi ffyrdd o gasglu data yn well

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y gofynion sefydliadol a deddfwriaethol perthnasol o ran adolygiadau, strategaethau a chynlluniau tai
2. y gofynion data ansoddol a meintiol sydd ar gael ar gyfer cyfrannu at adolygiadau, strategaethau a chynlluniau tai
3. sut a ble i gael gafael ar lenyddiaeth, gwybodaeth a data i lywio'ch gwaith
4. sut i gynnal ymchwil ar gyfer adolygiadau, strategaethau a chynlluniau tai
5. y gweithgareddau y mae eich sefydliad yn eu cynnal ar hyn o bryd mewn perthynas â'r adolygiad, y strategaeth neu'r cynllun tai perthnasol
6. pryd a sut i gynnwys rhanddeiliaid, cwsmeriaid a'r gymuned leol wrth gynnal adolygiad tai neu wrth ddatblygu strategaeth neu gynllun
7. y strategaeth gyffredinol ar gyfer eich sefydliad a sut mae'n cysylltu â'r darlun lleol a chenedlaethol
8. rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd mewn perthynas â'r adolygiad, y strategaeth neu'r cynllun tai perthnasol
9. eich gweithdrefnau a'ch polisïau sefydliadol a'ch deddfwriaeth berthnasol ar gyfer cydraddoldeb ac amrywiaeth.
10. sut mae'n rhaid i'ch sefydliad gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol ym maes diogelu data
11. sut mae gwahanol amgylchiadau personol cwsmeriaid yn effeithio ar y gwasanaethau gofynnol
12. y ffactorau sy'n effeithio ar allu eich sefydliad i ddarparu adolygiadau, strategaethau a chynlluniau tai
13. terfynau eich cyfrifoldebau eich hun a goblygiadau gweithredu y tu allan i'r terfynau hyn

Cyfrannu at adolygiadau, strategaethau a chynlluniau tai

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills CFA |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 29 Maw 2019 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 06 Ion 2024 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Instructus |
| **RCU gwreiddiol** | ASTH412 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cynorthwy-ydd Cynnwys Preswylwyr, Cynorthwy-ydd Tai, Cynorthwy-ydd Cymdogaeth, Gweinyddwr Tai, Cynorthwy-ydd Gosod Eiddo, Rheolwr Portffolio Cynorthwyol (heb bortffolio), Trafodwr Gosod Llety, Cynorthwy-ydd Refeniw, Cynorthwy-ydd Atgyweirio |
| **Cyfres/Set** | Tai |
| **Geiriau Allweddol** | eiddo; ymchwilio; delio; torri cytundeb; llety; tenantiaeth; trwydded; lesddeiliad; cytundebau; cwsmeriaid; dogfennaeth; diogelwch; cymorth; deddfwriaeth; cydraddoldeb; amrywiaeth; diogel; trefnu; adolygiadau; strategaethau; cynlluniau; stoc; cynllunio; |